**RHAGLEN GYDWEITHREDU IWERDDON CYMRU 2014-2020**




**CYFLWYNIAD**

Mae rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020 yn adeiladu ar dros ugain mlynedd o gydweithredu drwy INTERREG. Yn ystod cyfnod ariannu 2014-2020, arweinir y rhaglen gan WEFO sy'n cyflawni rôl yr Awdurdod Rheoli ar ran Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn Llywodraeth Iwerddon, yr Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio a'i phartneriaid gweithredu yn y Cynulliad Rhanbarthol Deheuol.

**Datganiad o weledigaeth y rhaglen:**

*'Darparu'r fframwaith i sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol ymroi i gydweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r blaenoriaethau a rennir, sydd o ddiddordeb cyffredin i ddwy ochr Môr Iwerddon, a thrwy hynny gyfrannu ac ychwanegu gwerth i flaenoriaethau datblygu economaidd a chynaliadwy Iwerddon a Chymru.'*


**Ffocws y rhaglen:**

**TRAWSFFINIOL** – gweithrediadau sy'n wirioneddol trawsffiniol, ac sy'n ychwanegu gwerth amlwg

**AMCANION ECONOMAIDD** – ffocws ar weithgarwch economaidd, a thwf a swyddi

**ANSAWDD –** gweithrediadau o ansawdd da sy'n ceisio atebion i heriau a blaenoriaethau a rennir

**CANLYNIADAU AC EFFEITHIAU –** ffocws cryf ar sicrhau canlyniadau ymarferol sy'n sicrhau'r effaith fwyaf




Hyd at 80% o'r gwariant cymwys yw cyfradd ymyrryd yr ERDF ar draws y Rhaglen.

**DAEARYDDIAETH**




Mae gan ardal y Rhaglen boblogaeth o dua 4 miliwn o bobl ar draws deg o ardaloedd NUTS III. Yn Iwerddon, yr ardaloedd yw Dulyn, y Canol-ddwyrain, y De-ddwyrain a'r De-orllewin yn Iwerddon. Yng Nghymru, yr ardaloedd yw Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, y De-orllewin, Abertawe a Sir y Fflint a Wrecsam.

**Echelau blaenoriaeth**

- <u>Echel Blaenoriaeth 1: Arloesi trawsffiniol.</u>

Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar weithgareddau yn y sectorau canlynol sy'n gydnaws â blaenoriaethau cyffredin strategaethau arbenigo craff y ddwy wlad:

- Gwyddorau Morol ac Amgylcheddol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy);
- Bwyd a Diod
- Gwyddorau Bywyd

- <u>Echel Blaenoriaeth 2: Addasiad Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol i'r Newid yn yr Hinsawdd.</u>

Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar swyddi a thwf. Bydd yn ceisio ymateb i heriau trawsffiniol i Fôr Iwerddon a chymunedau arfordirol yn sgil y newidiadau yn yr hinsawdd sydd wedi effeithio ar y gymdeithas, yr economi, busnesau a'r ecosystem yr ydym yn eu rhannu.

- <u>Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol.</u>

Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gydweithredu mewn modd sy'n hybu twf cynaliadwy, drwy ddefnyddio potensial asedau naturiol a diwylliannol yr ardal forol drawsffiniol.

**Gweithrediadau Buddiolwyr (Partneriaid)**

Rhaid bod gan bob gweithrediad o leiaf un buddiolwr (partner) o Iwerddon ac un buddiolwr (partner) o Gymru, ac ni ddylai fod mwy na chwe chyd-fuddiolwr i bob gweithrediad.

**Y meini prawf cydweithredu – Un o'r elfennau hanfodol**

Dyma'r pedwar maen prawf cydweithredu y mae'n rhaid eu bodloni wrth ddatblygu partneriaethau trawsffiniol:

- Datblygu ar y cyd
- Gweithredu ar y cyd
- Staffio ar y cyd
- Ariannu ar y cyd

**Gweithredu**

Bydd y rhaglen yn gweithredu system **Galwad Agored** ar gyfer brosiectau.

Y cyfnod cyn cynllunio
Mae'r sefydliad yn cysylltu drwy ddolen ar y wefan, gan ddefnyddio mewnflwch Iwerddon/Cymru neu'r Swyddog Gweithrediadau

Mae'r Swyddog Gweithrediadau'n cynnal trafodaethau cychwynnol gyda phartneriaid gweithrediadau posibl.

Mae'r sefydliad yn cwblhau **Tabl Rhesymeg Gweithrediad**

Mae fersiwn derfynol unrhyw gynnig yn cael ei hanfon at y **Grŵp Technegol** er mwyn iddo wneud penderfyniad.

Mae'r cynnig yn ennyn un o'r ymatebion canlynol:

- Mae'n cael ei dderbyn i gam un y gwaith o gynllunio busnes
- Cynghorir y sawl sydd wedi ei gyflwyno i weithio gyda gweithrediad arall sy'n bwriadu darparu gweithgarwch tebyg
- Cynghorir y sawl sydd wedi ei gyflwyno i gryfhau'r cynnig
- Gwrthod/Tynnu'n ôl

WIN3 – Cynllun rhwydweithio sy'n darparu cyllid ar gyfer teithio a chynhaliaeth i hwyluso'r gwaith o sefydlu partneriaethau.

Porth 1 – Cam Cynllunio Busnes:
Mae'r sefydliad yn cofrestru ar e-Gateway er mwyn gallu mynd at WEFO Ar-lein (platfform sy'n wynebu'r cwsmer ar gyfer PPIMs).

Gwahoddir y buddiolwr arweiniol i gwblhau a chyflwyno **templed cynllun busnes** sy'n gyfyngedig i dri maen prawf craidd – Addasrwydd Strategol (yn cynnwys y meini prawf cydweithredu), Cyflawni, a Chyllid a Chydymffurfio.

Mae swyddogion yn paratoi adroddiad ar gyfer y penderfyniad i'w gyflwyno i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen.

**Pwyllgor Llywio'r Rhaglen - Porth 1**

Mae gan y Pwyllgor Llywio dri opsiwn pan fydd yn adolygu achosion busnes ym Mhorth 1:

- Cymeradwyo a derbyn yr achos busnes i'r cam cynllunio manwl.
- Dychwelyd yr achos busnes er mwyn i'r sawl sydd wedi ei gyflwyno wneud rhagor o waith arno cyn iddo allu llwyddo ym Mhorth 1 – bydd angen inni

ddarparu canllawiau clir gan y dylid gwrthod achos busnes y mae angen llawer o ailysgrifennu arno.

Gwrthod/gosod ar restr wrth gefn/tynnu'n ôl.

Cam y Cynllun Busnes Manwl

Mae'r gweithrediadau sydd wedi eu cymeradwyo yn cyrraedd cam cyflwyno cynlluniau busnes manwl a chwblhau'r dystiolaeth ar gyfer y chwe maen prawf sy'n weddill:

Dangosyddion a Deilliannau; Gwerth am Arian; Rheoli Prosiect; Themâu Trawsbynciol; Addasrwydd Buddsoddi; Cynaladwyedd Tymor Hir.

Mae'r Swyddogion Arweiniol a'u Dirpwyon yn cydweithio i gwblhau adroddiad ar y penderfyniad ariannu terfynol sy'n cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen er mwyn iddynt wneud penderfyniad ariannu Porth 2.

Mae gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen dri opsiwn:

- Cymeradwyo'r gweithrediad.
- Dychwelyd y gweithrediad er mwyn i'r sawl sydd wedi ei gyflwyno wneud rhagor o waith arno – bydd angen inni ddarparu canllawiau clir gan y dylid gwrthod gweithrediad y mae angen llawer o ailysgrifennu arno.
- Gwrthod/gosod ar restr wrth gefn/tynnu'n ôl (Mae hyn yn annhebygol erbyn hyn, ond rydym yn ei gynnwys ar gyfer senarios lle mae buddiolwr wedi tynnu'n ôl, neu mae cyllid wedi ei golli, etc.)

Porthol

Er mwyn rheoli'r system galwad agored, sefydlwyd porthol i ganiatáu i aelodau'r Pwyllgor Llywio:

- Lawrlwytho papurau cyfarfodydd
- Adolygu dogfennau cais achosion busnes er mwyn eu hystyried
- Defnyddio'r blog trafod er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio clir ar gyfer y penderfyniadau a wneir ar achosion busnes ym Mhorth 1 a Phorth 2.

Ar ôl cymeradwyo gweithrediad

Cynhelir cyfarfod cynefino cyn pen 6 wythnos ar ôl i'r gweithrediad gael ei gymeradwyo, a fydd yn cynnwys adolygu'r contract; cadarnhau bod contractau'r

buddiolwyr wedi eu paratoi a'u llofnodi; sicrhau bod y targedau ar gyfer rhoi'r gweithrediad ar waith a chyflawni gweithgareddau wedi eu pennu; sicrhau bod pob dogfen bolisi yn ei lle a'u bod ar gael yn rhwydd, a bod system ar waith ar gyfer cadw dogfennau. Rhaid hefyd sicrhau bod eglurder ynghylch manylion cyswllt a lefelau awdurdod; a bod cyngor arbenigol yn cael ei dderbyn gan CCT, RME, FAT (Cyllid), etc.

Gofal Dilynol/Adolygiadau – caiff y gweithrediadau a gymeradwyir eu monitro'n agos, drwy gynnal adolygiadau rheolaidd sy'n gysylltiedig a chyflwyno hawliadau, a/neu drwy wirio yn erbyn cerrig milltir allweddol ar diwedd bob tri neu chwe mis.